# Pwyllgor Ymchwilio i'r heintiad E.coli yng Nghymru

## E.Coli(2) 01-05 (p1)

### Dyddiad y cyfarfod: 07 Tachwedd 2005

### Amser y cyfarfod: 2:30 pm

### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

#### PAPUR GAN YR YSGRIFENNYDD PARHAOL

#### Pwrpas

1.1 Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth ar faterion sy'n berthnasol i drafodaethau'r Pwyllgor.

#### Sefydlu'r Ymchwiliad

2.1 Bydd yr Ymchwiliad yn cael ei sefydlu o dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005. Bydd angen i'r Cynulliad benderfynu pwy fydd yn gyfrifol am sefydlu a gweinyddu'r Ymchwiliad. Gall roi'r cyfrifoldeb hwn i Bwyllgor a fyddai wedyn yn gallu dirprwyo'r cyfrifoldeb ymhellach i fi fel yr Ysgrifennydd Parhaol. Neu gallai'r Cynulliad roi'r cyfrifoldeb i'r Prif Weinidog a allai wedyn ddirprwyo'r cyfrifoldeb i mi. Yn fy marn i, y cam mwyaf priodol fyddai i'r Cynulliad ddirprwyo i'r Prif Weinidog y cyfrifoldeb o sefydlu a gweinyddu'r Ymchwiliad. Ni fyddai hyn yn golygu dirprwyo'r holl swyddogaethau yn y Ddeddf Ymchwiliadau 2005, ond yn hytrach byddai'n golygu arfer y swyddogaethau hyn cyn belled ag sy'n angenrheidiol i gwblhau'r ymchwiliad penodol hwn. Byddai cam o'r fath yn gyson â phenderfyniad y Cynulliad ar 14 Chwefror 2001, sef y dylid sicrhau'r rhaniad mwyaf posibl rhwng cyfrifoldebau braich weithredol a braich ddeddfwriaethol y Cynulliad.

#### Cyllid

3.1 Er mwyn bod yn gwbl agored ynghylch costau'r ymchwiliad ac er mwyn sicrhau bod y rhain yn parhau o fewn rheolaeth y Cynulliad, y peth mwyaf priodol fyddai i Brif Grwp Gwariant (MEG) ar wahân gael ei sefydlu er mwyn darparu ar gyfer costau'r Ymchwiliad, yn benodol. Rwy'n deall bod y Gweinidog Diwylliant yn bwriadu cynnwys MEG o'r fath yn y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2006-07.

## Cynnwys yr Ymchwiliad

4.1 Fan lleiaf, bydd angen i'r Ymchwiliad sicrhau bod Cadeirydd a chanddo/chanddi gymwysterau addas yn cael ei benodi/ei phenodi gan y Cynulliad. Mae'r Pwyllgor eisoes wedi nodi y byddai'n dymuno penodi rhywun â phrofiad proffesiynol ym maes materion iechyd y cyhoedd, yn hytrach na chyfreithiwr. Bydd angen gofyn i'r Cadeirydd pa gymorth pellach y bydd ef/hi ei angen. Mae sawl opsiwn. Gallai'r Cadeirydd, er enghraiff, gael ei gynorthwyo gan un neu fwy o aelodau'r Panel. Neu mi allai Asesydd neu ddau gael eu penodi. Y fantais o gael Aseswyr yn hytrach nag Aelodau yw na fyddai ond angen eu galw yn ôl y gofyn. Bydd ar y Cadeirydd angen cymorth priodol gan swyddogion hefyd. Yn ogystal ag ysgrifenyddiaeth fach, bydd agen ei wahodd ef/ei gwahodd hi i ystyried a oes angen Cwnsler i'r Ymchwiliad, neu Gyfreithiwr.

## Rheolau Statudol ar Weithdrefnau

5.1 Mae'r Ddeddf Ymchwiliadau yn gwneud darpariaethau ar gyfer Rheolau Statudol ar Weithdrefnau, sydd, yn achos Ymchwiliad yng Nghymru, i gael eu gwneud gan y Cynulliad drwy offeryn statudol. Er nad yw'n ofynnol o dan y Ddeddf i gael Rheolau, byddai'n ddymunol sefydlu rheolau o'r fath cyn i'r Ymchwiliad gychwyn, ar y sail y bydd y Rheolau yn rhoi eglurder ynghylch y ffordd y caiff yr Ymchwiliad ei gynnal ac yn rhoi pwerau ac yn gosod ymrwymiadau ar y Cadeirydd ac eraill sy'n cymryd rhan ffurfiol. O dan Reolau Sefydlog y Cynulliad, byddai angen i ddrafft o unrhyw Reolau arfaethedig gael eu paratoi gan Weinidog. Rwy'n deall bod yr Adran Materion Cyfansoddiadol yn paratoi rheolau drafft ar hyn o bryd i'w defnyddio yn Lloegr. Ymddengys mai'r bwriad ar hyn o bryd yw ymgynghori ar y rhain gyda'r bwriad iddynt gael eu gwneud yn ffurfiol drwy Offeryn Statudol yng ngwanwyn 2006. Bydd angen i'r Pwyllgor ystyried a ddylai argymell i'r Cynulliad y dylid cyflwyno Rheolau cyfatebol yng Nghymru cyn i'r gwaith go iawn gychwyn ar yr Ymchwiliad.

**JON SHORTRIDGE**